**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2013**

**ALLDRO AMCANOL 2013-2014**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2013-14 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro a'i reoli'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion cyfredol bydd £613,684 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Ionawr, ac yn amcangyfrif y gwariant am 2 fis olaf y flwyddyn. Mae lefelau digwyddiadau yn is nag yn y blynyddoedd a fu, ond mae 2 fis o'r flwyddyn i fynd eto, a gallai cyfnod o dywydd garw olygu y bydd angen adnoddau ychwanegol i ariannu ffioedd troi allan.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, a bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyflogau yn ymwneud â diffoddwyr tân y system RDS, a'r amcangyfrif cyfredol yw £614k. Bydd yr Aelodau'n cofio'r cyflwyniadau helaeth ynglŷn â'r drafferth i recriwtio diffoddwyr tân i weithio ar y system RDS. Er ymgyrch recriwtio ddiweddar, mae nifer y staff yn dal yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, ac arweiniodd hyn at arbedion mewn ffioedd cadw a ffioedd ymarfer. Er mwyn lliniaru'r effaith, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi bod yn treialu system hyblyg newydd pan fo'r gofal ar rai gorsafoedd y system RDS yn cael ei ategu gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn yn rhoi oriau ychwanegol pan fo angen.

6 O ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol bu gostyngiad bychan yng nghostau cyflogau diffoddwyr tân. Fodd bynnag, mae'r gost i'r Awdurdod o baratoi ar gyfer gweithredu diwydiannol wedi bod yn fwy nag unrhyw ostyngiad mewn costau cyflogau.

7 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i ailstrwythuriad a arweiniodd at swyddi gwag yn cael eu llenwi'n hwyrach na'r amcangyfrif, a'r ffaith fod nifer o swyddi heb gael eu llenwi ar hyn o bryd.

8 O ganlyniad i'r nifer isel o recriwtiaid yn ystod y flwyddyn, bydd £81k o danwariant yn y gyllideb hyfforddiant.

9 Mae'r gorwariant ar Bensiynau Diffoddwyr Tân oherwydd i daliad ychwanegol am anaf gael ei wneud yn ystod y flwyddyn, ac nad oedd hyn yn hysbys pan osodwyd y gyllideb wreiddiol.

**Safleoedd**

10 Ar gyllideb y Safleoedd, bydd gorwariant ar gostau atgyweirio a chynnal a chadw. Mae'r gorwariant oherwydd y ffaith fod contractau cynnal a chadw blynyddol i fod i gael eu haildendro ar ôl y broses o osod y gyllideb felly nid oedd modd rhagweld y pwysau chwyddiannol ar y gyllideb oherwydd amgylchiadau'r farchnad. Mae'r contractau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y portffolio eiddo yn cael ei gadw i'r safon ofynnol a'i fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

11 Oherwydd bod cost ynni yn codi, ynghyd â'r ffaith fod cynnydd mewn ffioedd sefydlog, amcangyfrifir y bydd gorwariant ar gostau ynni.

## Cludiant

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod tanwariant o £63k ar y gyllideb Cludiant. Digwyddodd hyn oherwydd y penderfyniad darbodus i ymestyn cyfnod y brydles ar gerbydau yn y cynllun ceir hur. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn y taliadau prydles blynyddol. Mae'r gwariant ar danwydd wedi gostwng yn sylweddol eleni oherwydd y gostyngiad yn y milltiroedd a deithiwyd, a'r broses o roi'r cyfyngydd cyflymder ar waith yn y rhan fwyaf o gerbydau'r fflyd. Mae'r ffrydiau gwaith arfaethedig ar gyfer adran y Fflyd hefyd wedi gorfod cael eu hymestyn oherwydd bu gostyngiad yn y costau atgyweirio a chynnal a chadw. Bydd raid ymorol am y costau hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Cyflenwadau

13 Bydd gorwariant ar Gyfarpar yr Ochr Weithredol oherwydd bod cost contractau offer hydrolig yn uwch na'r disgwyl. Y flwyddyn nesaf, gwneir y gwaith yn fewnol er mwyn lleihau'r gost.

14 Bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd bod y contractau cyfathrebu wedi cael eu hailnegodi, gan arwain at arbediad ar gostau Firelink a rhenti llinellau yn y flwyddyn gyfredol.

15 Mae'r gorwariant ar gostau Cyfrifiaduron oherwydd y costau datblygu meddalwedd sy'n gysylltiedig â'r system Fleetwave newydd. Rhoddwyd arian o'r neilltu, ond oherwydd y tanwariannau cyffredinol, efallai na fydd angen defnyddio'r gronfa wrth gefn.

16 Sefydlwyd Pwyllgor Materion Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn 2012 er mwyn gwella gwaith ar y cyd, darparu gwasanaethau a chynnal lefel y gwelliannau i wasanaethau. Mae'r Awdurdod, fel rhan o'r grŵp, wedi cytuno i gyfrannu at gost cyflog cydlynydd y Pwyllgor, a chaiff hynny ei osod yn erbyn yr arbedion a grëir gan y Pwyllgor.

17 Bydd gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth, a hynny yn rhannol oherwydd y ffordd o drin Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl at ddiben cyfrifyddu. Mae unrhyw orwariant dros incwm felly yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw. Eleni, amcangyfrifir y bydd hynny'n £9k.

18 Mae tanwariant rheoledig yn y gyllideb ar gyfer cyfathrebu corfforaethol.

### Asiantaeth

19 Mae'r tanwariant ar gostau Cynnal a Chadw Tir o ganlyniad i aildendro'r contract mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn wedi arwain at lai o gostau.

### Cyllido Cyfalaf

20 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel, yr oedi angenrheidiol ar brosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam, ac aildrefnu prosiectau Tywyn a Nefyn.

### Incwm

21 Yn gyffredinol, amcangyfrifwyd y bydd yr incwm fymryn yn uwch na'r gyllideb. Bydd yr incwm o safleoedd ar y cyd yn llai na'r gyllideb oherwydd bod y gyllideb yn seiliedig ar weithgarwch y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad derbyniol yn nifer y galwadau gwasanaethau arbennig, ac arweiniodd hyn at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r incwm o werthu cerbydau a pheiriannau wedi ei osod yn erbyn hyn, ac mae'n uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer gan ei bod yn anodd rhagweld yn union faint o gerbydau y byddwn yn cael gwared arnynt bob blwyddyn.

### Cyfraniad i Gronfeydd wrth gefn

22 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Rhagfyr 2013 cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor i ddefnyddio'r gyllideb refeniw i ariannu rhan o'r rhaglen gyfalaf yn y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn lleihau'r costau dyledion a fydd yn digwydd oherwydd y rhaglen gyfredol ac yn lleihau'r gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn lleihau rhagor ar y costau dyledion yn y dyfodol awgrymir y gellid defnyddio unrhyw danwariannau sy'n weddill i wneud iawn am y costau hyn, ac yn ôl yr arwyddion cyfredol gallai hyn fod tua £614k.

## Argymhelliad

23 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig, ac yn cytuno i osod arian o'r neilltu i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol.